

4 July 2022

Mark Isherwood MS Chair  
Public Accounts Committee  
Welsh Parliament  
Cardiff Bay  
Cardiff  
CF99 1SN

**Royal College of Nursing**

Ty Maeth  
King George V Drive East  
Cardiff  
CF14 4XZ

**Helen Whyley, RN, MA**  
Director, RCN Wales

Telephone 02920 680703  
Email [helen.whyley@rcn.org.uk](mailto:helen.whyley@rcn.org.uk)

Dear Mark

I am writing to you regarding the Public Accounts Committee inquiry into care home commissioning for older people.

The Royal College of Nursing (RCN) Wales represents 28,000 members, two-thirds of which work in the community and many deliver care in care homes. The delivery of high quality care in care homes is a key priority for RCN members. I am disappointed that RCN Wales was not sent an initial invite for comments in regard to this inquiry, however I am grateful that I am able to input into this inquiry at this stage. I would welcome any further involvement in this inquiry.

The care home nursing workforce ensures individuals are cared for with dignity and compassion and can receive care in their home setting. The role of nursing in care homes is key to the delivery of complex, high-quality care, supporting independence, reducing admissions to hospital and improving health and wellbeing. Nurses are also central to commissioning care for older people in care homes.

In 2021 the Royal College of Nursing (RCN) Wales launched a nursing in care home report. One of the recommendations within this report was that ‘the Welsh Government should consider options for a fairer and more sustainable way of financing the care sector in Wales’.

Continued ....

**Coleg Nyrssio Brenhinol y Deyrnas**  
Gyfunol/Royal College of Nursing of the United Kingdom  
20 Cavendish Square  
Llundain/London W1G 0RN  
Ffôn/Telephone  
+44 (0) 20 7409 3333  
RCN Direct 0345 772 6100  
[rcn.org.uk](http://rcn.org.uk)

**Coleg Nyrssio Brenhinol Cymru**  
Swyddfa Gogledd Cymru/  
Royal College of Nursing Wales  
Ty Maeth, Rhodfa Ddwyreiniol/  
Brenin George V/  
King George V Drive East  
Caerdydd/Cardiff  
CF14 4XZ

**Noddwr/Patron**  
Her Majesty the Queen  
**Llywydd/President**  
Dr Denise Chaffer  
**Ysgrifennydd Cyffredinol Dros**  
Dra a Prif Weithredwr/  
Acting General Secretary &  
Chief Executive  
Pat Cullen  
**Cyfarwyddwr, RCN Cymru/**  
Director, RCN Wales  
Helen Whyley

Mae'r RCN yn cynrychioli nryssiau a nryssio, gan hyrwyddo  
rhagoriaeth mewn arfer a llunio polisiau iechyd  
The RCN represents nurses and nursing, promotes  
excellence in practice and shapes health policies



Mae'r Coleg Nyrssio Brenhinol yn Goleg Brenhinol a sefydlwyd drwy Siarter Frenhinol ac Undeb Llafur Cofestref Arbennig a sefydlwyd a dan Ddeddf Undebau Llafur (Cydgrynhau) 1992.  
The RCN is a Royal College set up by Royal Charter and a Special Register Trade Union established under the Trade Union and Labour Relations (Consolidation) Act 1992.

### Care home funding

The current social care funding system is complex and confusing for care home residents, families and social care staff. It consists of self-funding, local authority funding and a contribution from the NHS for the registered nurse elements of care (via NHS-funded nursing care (FNC) or NHS-funded Continuing Healthcare (CHC)).

Care homes support residents who have funding from any of these funding streams. The current system causes a great deal of frustration, with individuals feeling there was a “discriminative” system in place; a “them” and “us” mentality, separating health from social care.

Moreover, CHC funding is limited and does not reflect the true cost of care, meaning care homes can be reluctant to offer CHC care. Some residents, when their needs increase and they qualify for CHC funding, are asked to move homes because the care home cannot afford to offer CHC funding, or do not have the staff to provide this care. This perceived two-tier system is mirrored in the access to equipment the social care sector has, compared to the NHS, which limits the scope of care given in care homes.

The current system of accessing public funding for care requires a sharp distinction being drawn between nursing care and personal care, with nursing care funded by the NHS and personal or social care either not funded or subject to various eligibility criteria.

This is a difficult and frustrating exercise from the perspective of nursing, which views the needs of the person being cared for holistically. The fundamentals of care, such as nutrition, hydration and personal hygiene, as well as physical and mental health more generally, are all aspects of health and wellbeing. It follows, therefore, that the current situation whereby one person can receive complete cancer care through the NHS, whilst another has to sell their home in order to pay for dementia care appears fundamentally unfair from a nursing perspective.

The distinction between nursing care and personal care has also previously had implications for nurses working in dual registered care homes. In these settings, nurses would have been limited to providing clinical services to residents with an assessed nursing need, whilst district nursing teams would provide clinical or “nursing” services (such as a dressing change) to residents assessed as “only” having personal care needs. The regulations introduced under the Regulation & Inspection of Social Care (Wales) Act 2016 state that registered nurses can give care to all residents, but that this would need to be specified in a care home’s Statement of Purpose.

Continued...

Care home service providers are advised to consider the wider implications for all the people using the service. For instance, if a high number of residents required wound care, which would normally be undertaken by district nurses, this may detract from registered nurses caring for individuals with “nursing” needs (as defined by the funding system). If this were to have an impact on the people requiring nursing care, the regulations are clear that the staffing level would need to be adjusted to account for this. This system, and its interpretation by the employer, can cause frustration to the nurse or care worker in the home that would prefer to focus on providing care as needed to all.

It is clear that a long-term, sustainable and simplified funding system for social care needs to be devised. Given the size and significance of services provided by care homes and the non-statutory sector, it is vital these sectors have financial stability. The current funding system for care homes is particularly difficult, with NHS funding following individual patients. An All Wales NHS framework for commissioning care home places would be far more sensible and should be considered.

### Workforce

A registered nurse’s presence in a care home, for residents with nursing needs, is essential for continuous monitoring and assessing those residents’ health and wellbeing. They are the core of the assessment process for continuing health care.

Registered nurses are key to managing acute illness, making decisions around the management of long-term conditions, and delivering complex interventions in emergency or crisis situations. They also help to support the seamless transition from hospital back into the care home.

The role of nursing in care homes does not end with the clinical needs of the resident; rather, the nursing workforce is often left to manage and overcome non-clinical challenges, especially at night. For example, a nurse may be left to oversee a fire drill, building maintenance and manage equipment breakdowns. To do this effectively take responsibility, skill and leadership

The shortage of qualified registered nurses within the care system is a significant cause for concern, as it impacts on the sustainability of nursing care provision within care homes and on the wider stability of the market. With more agency and locum staff working in the care sector, this can lead to an erosion of continuity of care between nursing staff and resident. Continuity of care is one of the fundamental drivers that attracts nurses to the sector.

Continued ....

According to Social Care Wales (SCW), the number of registered nursing staff employed by commissioned care providers in 2018 was only 1,438, making up 3% of all staff employed by commissioned care providers in Wales. The percentage of registered nursing staff ranged from 0% in care providers commissioned by Powys, to 4% in Gwynedd, Wrexham, Swansea, Neath Port Talbot, Rhondda Cynon Taf, the Vale of Glamorgan, Monmouthshire and Newport.<sup>1</sup>

There is an urgent need to invest in nursing in care homes to ensure residents can continue to receive the care they need and deserve.

I have attached a copy of the RCN Wales report, *Nursing in Care Homes*. I look forward to reading the findings of the Public Accounts Committee's inquiry into care home commissioning for older people.

Kind regards

Yours sincerely



**HELEN WHYLEY, RN, MA**  
**DIRECTOR, RCN WALES**

#### **About the Royal College of Nursing (RCN)**

The Royal College of Nursing is the world's largest professional organisation and trade union for nursing, representing over 465,000 nurses, midwives, health visitors, healthcare support workers and nursing students, including over 28,000 members in Wales. RCN members work in both the independent sector and the NHS. Around two-thirds of our members are based in the community. The RCN is a UK-wide organisation, with National Boards in Wales, Scotland and Northern Ireland.

The RCN represents nurses and nursing, promotes excellence in nursing practice and shapes health and social care policy.

---

<sup>1</sup> Social Care Wales, 2021, Workforce Profile 2019: Commissioned Care Provider Services



**Nyrsio  
mewn  
cartrefi  
gofal**

# FORTHEFULLTEAM  
**FELUNTÎM**



Coleg Nyrsio Brenhinol  
Cymru  
Royal College of Nursing  
Wales

# Cynnwys

Cynnwys	Tudalen
<b>Adran 1</b> Swyddogaeth a chyfraniadau nyrssys cofrestredig mewn cartrefi gofal	<b>5</b>
<b>Adran 2</b> Cartrefi Gofal a COVID-19	<b>7</b>
<b>Adran 3</b> Yr angen am fwy o nyrssys cofrestredig yn y sector cartrefi gofal	<b>9</b>
<b>Adran 4</b> Gofal diogel ac effeithiol mewn cartrefi gofal	<b>17</b>
<b>Adran 5</b> Integreiddio a gweithio gyda gofal eilaidd, sylfaenol a chymunedol	<b>20</b>
<b>Adran 6</b> Y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd	<b>21</b>
<b>Adran 7</b> Ariannu gofal cymdeithasol	<b>23</b>

Os hoffech ragor o wybodaeth cysylltwch â  
[Policy&PublicAffairs.Wales@rcn.org.uk](mailto:Policy&PublicAffairs.Wales@rcn.org.uk)

## Ynglŷn â'r Coleg Nysio Brenhinol (RCN)

Yr RCN yw sefydliad proffesiynol ac undeb llafur nyrssys mwyaf y byd, yn cynrychioli tua 435,000 o nyrssys, bydwragedd, ymwelwyr iechyd, gweithwyr cymorth gofal iechyd a myfyrwyr nysio, gan gynnwys dros 26,000 o aelodau yng Nghymru. Mae aelodau RCN yn gweithio yn y sector annibynnol ac yn y GIG. Mae tua dwy ran o dair o'n haelodau yn gweithio yn y gymuned.

Mae'r RCN yn sefydliad y DU gyfan, â'i Fyrddau Cenedlaethol ei hun ar gyfer Cymru, yr Alban a Gogledd Iwerddon.


# Crynodeb gweithredol

Mae cartrefi gofal yn cynorthwyo rhai o'r unigolion mwyaf agored i niwed mewn cymdeithas. Mae'r gweithlu cartrefi gofal yn sicrhau y gofalir am yr unigolion hyn gydag urddas a thosturi a'u bod yn gallu derbyn gofal yn eu cartrefi. Mae swyddogaeth nyrssio mewn cartrefi gofal yn allweddol i ddarpariaeth gofal cymhleth, o ansawdd uchel gan gefnogi annibyniaeth, lleihau derbyniadau i'r ysbyty a gwella iechyd a llesiant.

Mae cartrefi gofal wedi wynebu heriau anhygoel yn ystod pandemig COVID-19. Arweiniodd anawsterau o ran caffael cyfarpar diogelu personol a phrofion COVID-19, a diffyg cyfathrebu rhwng byrddau iechyd, awdurdodau lleol a chartrefi gofal at gynnydd mewn gorbryder yn y sector. Gwaethygwyd heriau a oedd eisoes yn bodoli o ran recriwtio a chadw'r gweithlu gan COVID-19, gan ddangos breuder y sector.

Cydnabuwyd hyn gan Lywodraeth Cymru gan ei bod wedi lansio ymgynghoriad, 'Ailgydbwys gofal a chymorth', sydd â'r nod o wella trefniadau gofal cymdeithasol a chryfhau gwaith partneriaeth. Bydd RCN Cymru yn ymateb i'r ymgynghoriad i sicrhau bod pwysigrwydd nyrssio yn cael ei amlygu a'i ddeall.

Bydd y papur presennol hwn yn rhoi gwybodaeth i lunwyr polisi, gwleidyddion a'r cyhoedd am swyddogaeth nyrssio mewn cartrefi gofal ac yn rhoi atebion i'r heriau a wynebir gan lawer yn y sector.



# Argymhellion

- 1** Dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda Gofal Cymdeithasol Cymru (GCC) ac Addysg a Gwella Iechyd Cymru (AaGIC) ar ymgyrch genedlaethol i godi proffil nrysio cofrestredig yng nghartrefi gofal Cymru.
- 2** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried opsiynau ar gyfer ffordd decach a mwy cynaliadwy o ariannu'r sector gofal yng Nghymru.
- 3** Dylai Llywodraeth Cymru ymrwymo i ehangu cwmpas Deddf Lefelau Staff Nrysio (Cymru) 2016 i gartrefi gofal. Dylai GCC weithio mewn partneriaeth â'r Prif Swyddog Nrysio i sefydlu egwyddorion staffio diogel interim ar gyfer cartrefi gofal.
- 4** Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru gefnogi'r Comisiwn Gwaith Teg ac ymrwymo i gynnig cyflog a buddion i nrysos a gweithwyr cymorth gofal iechyd sy'n gyfartal i rai'r GIG.
- 5** Dylai AaGIC, byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd, a sefydliadau addysg uwch weithio gyda'i gilydd i gynyddu cyfleoedd lleoliadau myfyrwyr yn y sector gofal cymdeithasol annibynnol.
- 6** Dylai Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol, a byrddau ac ymddiriedolaethau iechyd sicrhau bod gan gartrefi gofal fynediad at gyngor nrysio atal a rheoli heintiau.
- 7** Dylai Llywodraeth Cymru ystyried yn ofalus a lliniaru unrhyw oblygiadau posibl o ymadawiad y DU â'r Undeb Ewropeaidd (UE) ar y gweithlu cartrefi gofal.

## Adran 1

Swyddogaeth a chyfraniadau nyrssys  
cofrestredig mewn cartrefi gofal

Mae nyrssys cofrestredig sy'n gweithio mewn cartrefi gofal yn allweddol i ddarparu gofal diogel, o ansawdd uchel ac i gefnogi canlyniadau iechyd a llesiant gwell i breswylwyr cartrefi gofal ledled Cymru.

*Fe es i ag un o'r preswylwyr i siopa yn ddiweddar. Dewisais rywbeth, gan ddweud "www, edrychwch ar hwn! Ro'n i'n arfer gwisgo un o'r rhain yn y chwedegau!" - edrychodd arnaf gan ddweud "Matron, dydw i ddim mor hen â hynny." Dydw i ddim yn gofalu am y genhedlaeth hŷn: rwy'n rhoi gofal nyrssio i rywun sydd angen nyrssio, ac mae oedran yn amherthnasol.*

Mae presenoldeb nyrs cofrestredig mewn cartref gofal, i breswylwyr ag anghenion nyrssio, yn hanfodol ar gyfer monitro ac asesu iechyd a llesiant y preswylwyr hynny yn barhaus. Nhw yw craidd y broses asesu ar gyfer gofal iechyd parhaus. Fel ymarferwyr annibynnol, defnyddir eu sgiliau clinigol i adnabod a rhagweld problemau, i weithredu pan fydd cyflwr rhywun yn dirywio, ac i osgoi unrhyw dderbyniadau diangen i'r ysbyty. Mae nyrssys cofrestredig yn allweddol ar gyfer rheoli salwch aciwt, gwneud penderfyniadau am reoli cyflyrau hirdymor, a darparu ymyriadau cymhleth mewn sefyllfaoedd brys neu argyfwng. Maent hefyd yn helpu i gefnogi'r trosglwyddiad di-dor o'r ysbyty yn ôl i'r cartref gofal.

Mae nyrssys cofrestredig mewn cartrefi gofal yn cydgysylltu gofal y preswylwyr i sicrhau eu bod yn cael eu hatgyfeirio i wasanaethau arbenigol, gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd, meddygon teulu a gwasanaethau cymdeithasol, fel sy'n ofynnol. Maent hefyd yn allweddol o ran sicrhau bod prosesau diogelu yn cael eu dilyn i sicrhau bod rhai o'u preswylwyr, y mae rhai ohonynt yn agored iawn i niwed, yn ddiogel.



## Adran 1 Swyddogaeth a chyfraniadau nyrsys cofrestredig mewn cartrefi gofal

Mae nyrsys cofrestredig yn hybu annibyniaeth preswylwyr trwy ofal rhagweithiol ac adsefydlu; hybu iechyd preswylwyr; darparu gofal Iliniarol a diwedd oes o ansawdd uchel; a chwarae rhan allweddol mewn eiriolaeth ar gyfer preswylwyr a theuluoedd.

Nid anghenion clinigol y preswylydd yw unig swyddogaeth nyrsio mewn cartrefi gofal; yn hytrach, mae'r gweithlu nyrsio yn aml yn cael ei adael i reoli a goresgyn heriau anghlinigol, yn enwedig yn y nos. Er enghraifft, efallai y bydd nrys yn cael ei gadael i oruchwyllo ymarfer Tân, gwaith cynnal a chadw'r adeilad ac i reoli methiannau offer. Mae'n cymryd cyfrifoldeb, dawn ac arweinyddiaeth i wneud hyn yn effeithiol.

*Mae'r swyddogaeth nyrsio mewn cartref gofal yn bwysig ac ni ddylid ei hymylu wrth ddatblygu polisi. Methwyd â chydnabod na chyfleu manteision grymus y swyddogaeth hon mewn polisi cyfredol. Mae hyn wedi ychwanegu at y pwysau a wynebir gan nyrsys mewn cartrefi gofal ac wedi atal nyrsys dan hyfforddiant rhag dilyn gyrrfa yn y maes.*

Mae ein preswylwyr yn amrywio o'u pedwardegau cynnar i dros gant oed, o bobl oedrannus i bobl ifanc sydd wedi colli coes neu fraich sydd eisiau mynd i gyngherddau roc yng Nghaerdydd - a pham na ddylen nhw? Ychwanegwch yr amrywiaeth eang o batholegau, ffarmacoleg a gofal ar gyfer priod, plant ac wyrion. Dydw i ddim yn gwybod am unrhyw faes nyrsio sydd mor amlweddog ar draws y cenedlaethau.

Rydyn ni'n siarad am roi anwyliaid mewn cartref gofal, fel petai eich bod yn eu rhoi mewn drôr a'i gau! Ond yn y fan yma, mae pobl yn cael gwneud pethau nad ydyn nhw erioed wedi'u gwneud o'r blaen, oherwydd rydyn ni'n gofalu am bopeth sy'n ymwneud â'r broses afiechyd, meddyginaeth. Yn lle biliau, treth, gwresogi, y cyfan sy'n rhaid iddyn nhw boeni amdano yw: beth ydw i'n mynd i'w wneud heddiw?

## Adran 2

## Cartrefi gofal a COVID-19

*Oni bai am gartrefi gofal, byddai'r GIG wedi cael trfferth - heb os. Oherwydd pe byddem wedi methu ac anfon ein preswylwyr i'r ysbty, ni fyddai unrhyw welyau wedi bod yn yr uned gofal dwys! Mae'n hen bryd i'r sector annibynnol a'r GIG gael eu gweld yn gyfartal.*

Mae COVID-19 wedi herio'r gweithlu iechyd a gofal cymdeithasol cyfan. Mae'r gweithlu nyrssio wedi arwain arloesi, darparu gofal clinigol cymhleth a dangos arweinyddiaeth broffesiynol trwy gydol y pandemig. Mae'r sector cartrefi gofal wedi wynebu heriau anhygoel a gwaethygwyd anawsterau presennol o ran cyfathrebu rhwng cartrefi gofal, byrddau iechyd ac awdurdodau lleol, ac amlygwyd anawsterau o ran recriwtio a chadw. Fodd bynnag, mae'r gweithlu cartrefi gofal wedi parhau i ddarparu gofal i rai o'r bobl fwyaf agored i niwed mewn cymdeithas ac wedi dangos ymroddiad ac ymrwymiad i breswylwyr cartrefi gofal.

Yn ystod cyfnod cynnar y pandemig, clywodd RCN Cymru straeon anecdotaidd o sut roedd staff cartrefi gofal yn teimlo wedi'u hynysu oddi wrth weddill y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Tyfodd y bwlc rhwng iechyd a gofal cymdeithasol yn fwyfwy amlwg i'r gweithlu cartrefi gofal. Roedd rheolwyr cartrefi gofal yn aml yn wynebu anawsterau yn cael cyfarwyddyd gan fyrrdau iechyd, awdurdodau lleol a GCC. Roedd heriau hefyd yn deall gan bwy ddylai'r cyfarwyddyd ddod. Hefyd, cafodd yr heriau yn cael gafael ar gyfarpar diogelu personol a phecynnau profi COVID-19 lawer o sylw yn ystod ton gyntaf pandemig COVID-19. Fodd bynnag, mae RCN Cymru yn ymwybodol bod hyn wedi'i ddatrys yn y mwyafri o achosion.

Yn ystod pandemig COVID-19, nid oedd nyrssys yn y sector cartrefi gofal yn mwynhau yr un telerau ac amodau â'r rhai yn y GIG, sy'n golygu bod rhai o dan anfantais o ran mynediad at dâl salwch. Ar 30 Hydref 2020, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru y cynllun Ychwanegiad at Dâl Salwch Statudol,<sup>1</sup> sy'n caniatáu i'r cyflogwr hawlio hyd at dâl llawn ar gyfer eu staff sy'n datblygu salwch. Fodd bynnag, cafodd rhai cyflogwyr a staff nyrssio hi'n anodd cael mynediad at hwn.



<sup>1</sup> Llywodraeth Cymru, Hydref 2020, Cyflwyno dau gynllun yng Nghymru i helpu pobl i hunanynysu, <https://llyw.cymru/cyflwyno-dau-gynllun-ynghymru-i-helpu-pobl-i-hunanynysu>. Gwelwyd ar 29 Mawrth 2021.

### Atal a rheoli heintiau

Yn ystod ton gyntaf pandemig COVID-19, amlygwyd atal a rheoli heintiau mewn cartrefi gofal fel arfer hanfodol i sicrhau amgylchedd diogel i breswylwyr. Roedd y defnydd o gyfarpar diogelu personol a sut i gael gafael ar gyflenwadau ohono yn elfen o hyn.

Trwy gydol cyfnod cynnar y pandemig hwn, daeth yn amlwg bod cyfathrebu canllawiau atal a rheoli heintiau yn anodd, ac roedd sicrhau eu gweithrediad yn anoddach fyth. Mae'r ystâd ffisegol o gartrefi gofal ledled Cymru yn cynnwys adeiladau h n yn bennaf. Nid yn unig y mae hyn yn herio'r sector cartrefi gofal gyda sicrhau cynhaliaeth ariannol a ffisegol yr adeilad, ond gwnaeth ynysu yn ystod pandemig COVID-19 yn anodd hefyd. Er enghraifft, nid oes gan bob preswylydd ystafell ymolchi en suite, ac felly roedd angen i breswylwyr rannu cyfleusterau ystafell ymolchi. Gweithiodd y gweithlu cartrefi gofal yn ddiflino i sicrhau bod preswylwyr yn cael eu diogelu, gan geisio dehongli newidiadau niferus i'r canllawiau hefyd yn lleoliad cartref preswyl a rennir.

Mae COVID-19 wedi amlygu'r angen am gyngor a chymorth nrysio atal a rheoli heintiau mewn cartrefi gofal. Byddai cael cymorth strwythuredig a chyson gan nyrsys atal a rheoli heintiau arbenigol o gymorth mawr i allu cartrefi gofal ddiogelu eu cleifion a gweithredu newidiadau i ganllawiau a pholisiau. Mae hyn yn wir ar gyfer unrhyw donnau o bandemig COVID-19 yn y dyfodol, ond hefyd wrth symud ymlaen mewn ymarfer arferol.

### Swyddogaeth y nrys ardal

Mae nyrsys ardal yn gweithio mewn partneriaeth â staff nrysio mewn cartrefi gofal. Mae nyrsys ardal yn darparu asesiadau o anghenion preswylwyr ac, yn ôl y gofyn, gofal clinigol.

*Yn ystod pandemig COVID-19, camodd nyrsys ardal ymlaen i gynorthwyo eu cydweithwyr mewn cartrefi gofal trwy ddarparu gofal clinigol angenrheidiol, ac, ar adegau, gwasanaethau lliniarol i breswylwyr.*

Roedd y cymorth gan nyrsys ardal yn hynod werthfawr. Darparodd nyrsys ardal y cymorth hwn yn ogystal â'u dyletswyddau presennol, gan gynnwys cynorthwyo nifer gynyddol o gleifion yn y gymuned, arwain timau cymunedol, a chadw'n gyfredol o ran canllawiau COVID-19 a chyngor atal a rheoli heintiau. Amlygwyd y cyfathrebu gwerthfawr a'r cydweithio agos rhwng meysydd gofal cymunedol a chymdeithasol trwy gydol pandemig COVID-19.

*Mae ein preswylwyr wedi cael cryn gyswilt gyda'u hanwyliad, ond dydy fy mam, sy'n 82 oed, heb fyngweld ers mis Mawrth diwethaf, oherwydd mae gen i gyfrifoldeb i atal heintiau yn y cartref gofal. Dyma'r math o beth dyw pobl ddim yn ei ddeall. Mae cartref gofal yn westy 5 seren gyda gofal nrysio.*

## Adran 3

Yr angen am fwy o nyrssys cofrestredig  
yn y sector cartrefi gofal

Mae'r prinder nyrssys cofrestredig cymwysedig yn y system ofal yn destun pryder sylweddol, gan ei fod yn effeithio ar gynaliadwyedd y ddarpariaeth gofal nyrssio mewn cartrefi gofal ac ar sefydlogrwydd ehangach y farchnad. Gan fod mwy o staff asiantaeth a locwm yn y sector gofal, gall hyn arwain at eryriad o barhad gofal rhwng staff nyrssio a'r preswylydd. Parhad gofal yw un o'r ysgogiadau sylfaenol sy'n denu nyrssys i'r sector.

*Yn ôl GCC, dim ond 1,438 oedd nifer y staff nyrssio cofrestredig a oedd yn cael eu cyflogi gan ddarparwyr gofal a gomisiynwyd yn 2018, sy'n 3% o'r holl staff a gyflogir gan ddarparwyr gofal a gomisiynwyd yng Nghymru.<sup>2</sup>*

Roedd canran y staff nyrssio cofrestredig yn amrywio o 0% mewn darparwyr gofal a gomisiynwyd gan Bowys, i 4% yng Ngwynedd, Wrecsam, Abertawe, Castell-nedd Port Talbot, Rhondda Cynon Taf, Bro Morgannwg, Sir Fynwy a Chasnewydd.<sup>3</sup>

Mae'r prinder nyrssys yn y sector cartrefi gofal mor aciwt bellach bod rhai cartrefi gofal yn cael trafferth yn darparu gofal nyrssio. Bu awgrymiadau gan y sector hyd yn oed o "ddatrys" y prinder nyrssys trwy wanhau neu gefnu ar ganllawiau statudol a phroffesiynol sy'n gwneud presenoldeb nyrssio cofrestredig neu oruchwyliaeth nyrs gofrestredig yn orfodol. Er bod timau amlddisgyblaeth hyblyg yn ffordd o weithio, a bod eu hangen ochr yn ochr ag arloesi technolegol, mae'n rhaid i ddiogelwch y sawl sy'n derbyn gofal fod yn bennaf.

Os bydd pobl angen gofal nyrssio, yna cyfrifoldeb Llywodraeth Cymru a'r holl randdeiliaid eraill yw gweithio i gynyddu capaciti nyrssio'r gweithlu.

### Cadw a reciwtio

Mae teimlo eich bod yn cael eich gwerthfawrogi yn rhan o'r gweithlu yn datblygu ac yn cynnal ysbryd. Mae'n eithriadol o bwysig bod gan nyrssys cofrestredig a gweithwyr gofal yn y sector cartrefi gofal barch cyfartal â chydweithwyr yn y GIG, o ran tâl a thelerau ac amodau.

<sup>2</sup> Gofal Cymdeithasol Cymru, 2021, *Profil Gweithlu 2019: Gwasanaethau Darparwyr Gofal a Gomisiynwyd* [https://socialcare.wales/cms\\_assets/file-uploads/GCC\\_workforce\\_profile\\_2019\\_Commissioned-Services\\_final\\_CymV2.pdf](https://socialcare.wales/cms_assets/file-uploads/GCC_workforce_profile_2019_Commissioned-Services_final_CymV2.pdf). Gwelwyd ar 29 Mawrth 2021.

<sup>3</sup> Gofal Cymdeithasol Cymru, 2021, *Profil Gweithlu 2019: Gwasanaethau Darparwyr Gofal a Gomisiynwyd* [https://socialcare.wales/cms\\_assets/file-uploads/GCC\\_workforce\\_profile\\_2019\\_Commissioned-Services\\_final\\_CymV2.pdf](https://socialcare.wales/cms_assets/file-uploads/GCC_workforce_profile_2019_Commissioned-Services_final_CymV2.pdf). Gwelwyd ar 29 Mawrth 2021.

## Adran 3 Yr angen am fwy o nyrssys cofrestredig yn y sector cartrefi gofal

---

*Mewn arolwg gan RCN Cymru yn 2020, gofynnwyd i'r ymatebwyr beth roeddent yn ei gredu fyddai'n cadw staff nyrssio yn y sector cartrefi gofal. Mae dros un rhan o dair (38.4%) o ymatebwyr o'r farn mai tâl uwch yw'r agwedd bwysicaf ar gyfer cadw staff.*

Tâl uwch gafodd y nifer fwyaf o bleidleisiau gan ymatebwyr. Fodd bynnag, yn elfen yn unig yw hon o wella reciwtio a chadw yn y sector. Mae elfennau eraill yn cynnwys sicrhau bod swyddogaeth staff nyrssio yn cael ei gwerthfawrogi, sicrhau bod cyfleoedd digonol i dderbyn datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) a llwybr gyraol addas ar gyfer nyrssys cofrestredig a gweithwyr gofal.

### **Gwerthfawrogi a pharchu'r gweithlu**

*Roedd tri deg dau y cant o ymatebwyr o'r farn bod cydnabod a pharchu swyddogaeth y gweithlu nyrssio mewn cartrefi gofal yn annog staff nyrssio i barhau i weithio.*

Bydd llawer o nyrssys cofrestredig sy'n gweithio mewn cartrefi gofal yn tystio i'r boddhad enfawr y mae nyrssio mewn cartrefi nyrssio yn ei gynnig. Fodd bynnag, gall tybiaethau o lunwyr polisi o ran nyrssio cartrefi gofal barhau i fod yn negyddol ac yn hen ffasiwn weithiau. O ystyried yr wybodaeth a'r gymsgeddf sgiliau sydd eu hangen i reoli yn gynhwysfawr preswylwyr ag anghenion cymhleth a chydafiacheddau lluosog, yn ogystal â dangos arweinyddiaeth glinigol gref a gallu i wneud penderfyniadau wrth reoli ac arwain timau staff, mae'r tybiaethau hyn yn ddislail ac yn anghyflawn. Mae angen cael gwared ar y tybiaethau hyn yn iawn trwy Lywodraeth Cymru, AaGIC a GCC yn gweithio'n agos gyda'i gilydd i godi proffil nyrssio cartrefi gofal fel proffesiwn, ac i lunio strategaeth reciwtio a chadw effeithiol ar gyfer y sector.

Hefyd, mae angen i Lywodraeth Cymru gydnabod pwysigrwydd nyrssio yn y sector cartrefi gofal wrth ddatblygu polisi a deddfwriaeth. Mae Llywodraeth Cymru wedi lansio dau ymgynghoriad yn ddiweddar: y papur ymgynghori 'Cymru O Blaid Pobl Hn: Ein Strategaeth ar gyfer Cymdeithas sy'n Heneiddio' ac ymgynghoriad papur gwyn 'Ailgydbwys Gofal a Chymorth'.<sup>4</sup>

---

<sup>4</sup> Llywodraeth Cymru, 2020, *Ailgydbwys Gofal a Chymorth*, [https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2021-01/dogfen-ymgynghori\\_0.pdf](https://llyw.cymru/sites/default/files/consultations/2021-01/dogfen-ymgynghori_0.pdf). Gwelwyd ar 21 Chwefror 2021.

## Adran 3 Yr angen am fwy o nyrssys cofrestredig yn y sector cartrefi gofal

Nid yw'r naill ddogfen na'r llall yn tynnu sylw at swyddogaeth bwysig nyrssio o ran hybu annibyniaeth, adsefydlu, a gofalu am unigolion i sicrhau y gallant heneiddio gydag urddas. A dweud y gwir, nid yw 'Cymru O Blaid Pobl Hŷn' yn defnyddio'r term nyrs neu nyrssio unwaith, ac mae 'Ailgydbwyso Gofal a Chymorth' yn cyfeirio at gyllid nyrssio yn unig. Mae angen sylw brys i'r diffyg dealltwriaeth amlwg o bwysigrwydd swyddogaeth nyrssio yn y sector gofal.

Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru sicrhau bod y gweithlu nyrssio mewn cartrefi gofal a'r sector gofal cymdeithasol ehangach yn cael ei werthfawrogi am ei waith anhygoel, a bod ei werth yn cael ei adlewyrchu mewn datblygiadau polisi a deddfwriaeth. Mae'n rhaid i *Cymru lachach: ein Cynllun Iechyd a Gofal Cymdeithasol*, ac unrhyw gynlluniau cyflawni dilynol roi sylw i dybiaethau hynafol o'r gweithlu gofal cymdeithasol a gwella cadw a recriwtio yn y sector gofal.

*Beth yw'r  
rhwystrau mwyaf  
o ran recriwtio?  
Diffyg addysg o  
ran yr hyn rydyn  
ni'n ei wneud.  
Mae angen i  
nyrssys weld bod  
modd camu  
ymlaen yn eu  
gyrfa ac i ddeall  
beth yw'r llwybr  
hwnnw. Pan  
fyddwch chi'n  
hyfforddi fel nyrs,  
gallwch ddechrau  
credu bod y byd  
yn dechrau ac yn  
gorffen gyda'r  
GIG. Mae'n braf  
deall bod byd y tu  
allan i'r GIG ac y  
gallwch gael  
llawer o hwyl.*

### Mynediad at addysg a datblygiad proffesiynol parhaus

Oherwydd cymhlethdodau iechyd ymhliith pobl hŷn - fel gwahanol ymddangosiad clefydau, patholegau lluosog, dylanwadau cymdeithasol ar heneiddio ac addasiad seicolegol i dyfu'n hŷn - mae angen gwybodaeth, sgiliau ac arbenigedd penodol ar staff nyrssio i weithio gyda phobl hŷn.

Mae addysg a mynediad at DPP yn hanfodol felly ac, wrth gwrs, yn ofynnol o dan broses ail-ddilysu'r Cyngor Nyrssio a Bydwreigiaeth ar gyfer nyrssys cofrestredig. Mae cyrsiau addysgol a hyfforddiant ar gyfer nyrssys cofrestredig mewn cartrefi gofal yn aml yn cael eu rhedeg gan GIG Cymru. Mae hyn yn achosi amrywiaeth o heriau ac mae nyrssys cofrestredig a rheolwyr cartrefi gofal wedi mynegi rhwystredigaeth at eu hanallu i gael mynediad at hyfforddiant a redir gan y GIG, ac oediadau maith cyn cael mynediad ato, gan nad oes ganddynt gyfrif e-bost GIG ac felly ni allant ddefnyddio mewnrwyd y GIG.

Byddai rhywbeth mor syml a darparu cyfrif e-bost GIG i nyrssys cofrestredig cartrefi gofal yn eithriadol o gynorthwyo ac yn dangos bod nyrssys cofrestredig yn y sector gofal yn cael eu parchu a'u gwerthfawrogi i'r un graddau â'u cydweithwyr GIG.

## Addysg gofal diwedd oes

I breswylwyr cartrefi gofal, mae derbyn gofal nyrssio o ansawdd da yn allweddol i gael ansawdd bywyd da, ac mewn sefyllfaedd lle gallai preswylydd dreulio diwrnodau olaf ei oes mewn cartref gofal, marwolaeth dda ac urddasol. Gall fod diffyg gwerthfawrogiad â blaenorriaeth o ran gofal diwedd oes o ansawdd uchel weithiau oherwydd llwybrau a phrotocolau cleifion annigonol i ganiatáu i breswylwyr aros mewn cartrefi gofal ar ddiwedd olaf eu hoes. Mae gofal Iliniarol yn ddawn hanfodol sydd ei hangen ar bob nyrss ac mae DPP mewn gofal Iliniarol yn ofynnol.

Dylid annog rheolwyr cartrefi gofal i ddatblygu gweithlu sydd â sgiliau gofal Iliniarol a diwedd oes fel buddsoddiad gwerthfawr.

Addaswyd y rhaglen *Six Steps to Success in End of Life Care*<sup>5</sup> o'r *North West of England Life Care Model* ac fe'i gweithredwyd gan Dîm Hwyluso Nyrssys Gofal Diwedd Oes Macmillan ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr. Mae'r rhaglen yn gwella canlyniadau a phrofiadau i breswylwyr a'u teuluoedd. Mae'r rhaglen 8 mis yn cynnig chwe cham:

**Cam 1:** trafodaethau wrth i ddiwedd oes agosáu

**Cam 2:** asesu, cynllunio gofal ac adolygu

**Cam 3:** cydgysylltu gofal

**Cam 4:** darparu gofal o ansawdd uchel mewn cartrefi gofal

**Cam 5:** gofal yn niwrnodau olaf bywyd

**Cam 6:** gofal ar ôl marwolaeth

Amlygir llwyddiant y rhaglen gan ei gwerthusiad. Bu gostyngiad i nifer yr achosion o dderbyniadau i'r ysbyty heb eu cynllunio; ar gyfer pob wyth preswylydd, roedd cyfartaledd o ddua dderbyniad heb ei gynllunio ar ôl y rhaglen, o'u cymharu â thri cyn hynny. Hefyd, roedd nifer yr achosion o gofnodi lleoliad marw a ffefrir yn uwch ar ôl y rhaglen Chwe Cham. Cyn y cwrs, roedd 83.7% o gartrefi gofal o'r farn eu bod "bob amser" neu "yn aml" yn trafod dymuniadau a ffafriaethau ar gyfer gofal diwedd oes, ond cynyddodd hyn i 93% ar ôl y rhaglen Chwe Cham.

Beth yw'r  
rhwystrau mwyaf o  
ran cadw staff?

Cyllid. Heb gyllid  
priodol, ni allwn  
reciwtio'n iawn na  
chyfateb i'r  
buddion o weithio  
i'r GIG - fel  
pensiynau. Dydych  
chi ddim yn cael  
hynny fan hyn. Os  
yw cartrefi gofal yn  
cael eu talu'n iawn,  
gallan nhw dalu eu  
nyrssys yn iawn. A  
gallan nhw  
hyfforddi staff.  
Felly mae'n gylch  
parhaus.

## Adran 3 Yr angen am fwy o nysys cofrestredig yn y sector cartrefi gofal

Gellir gweld llwyddiant y rhaglen ymhellach o allu cartrefi nysio a phreswyl i ddarparu proses cynllunio gofal ymlaen llaw. Mewn cartrefi nysio, roedd 31.3% yn cynnig cynllunio gofal ymlaen llaw cyn y rhaglen Chwe Cham, a gynyddodd i 87.3% wedi hynny. Mewn cartrefi preswyl, roedd 32% yn cynnig cynllunio gofal ymlaen llaw cyn y rhaglen Chwe Cham; cynyddodd hyn i 83.3% wedi hynny. Roedd cynnydd hefyd i hyder staff nysio a chartrefi gofal, a chynnydd i farwolaeth yn y lleoliad yr oedd y preswylydd yn ei ffafrio.

Yn rhan o Raglen Mabwysiadu a Lledaenu Comisiwn Bevan, lledaenwyd y rhaglen Chwe Cham i Fwrdd lechyd Cwm Taf, Bwrdd lechyd Powys a Chyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam.

Ni ellir methu a rhoi digon o bwys i werth gofal diwedd oes. Mae angen addysg a DPP cyson i sicrhau bod preswylwyr yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnynt ac i'w teuluoedd a'u ffrindiau cysylltiedig deimlo'n hyderus yn y gofal sy'n cael ei ddarparu i'w hanwylyd. Mae'r rhaglen Chwe Cham yn enghraift o arfer da ac yn ddull cyson o ymdrin ag addysg diwedd oes o ansawdd uchel.

### Buddsoddi mewn technoleg gwybodaeth (TG) a systemau technoleg ddigidol

Mae buddsoddiad mewn technoleg ym maes darparu gofal yng Nghymru yn bwysig i'r rhai sy'n gweithio yn y sector cartrefi gofali. Byddai mynediad at systemau TG y GIG yn gwella llifau data a gwybodaeth, yn enwedig o ran rheoli cofnodion cleifion, ond byddai hefyd yn caniatáu mynediad hanfodol at brotolau a chanllawiau cyfredol a'r canfyddiadau ymchwil diweddaraf. Gallai buddsoddi mewn TGCh a thechnoleg ddigidol wella capaciti a galluoedd cartrefi gofali yn fawr.

Er enghraift, mae realiti rhithwir a chyfryngau digidol (cyfrifiaduron llechen, y rhyngrwyd, ac ati) yn cael eu defnyddio yn llwyddiannus gyda phreswylwyr cartrefi gofali mewn amrywiaeth o ffyrdd. Mae gan Cymunedau Digidol Cymru sawl enghraift o arfer gorau, gan gynnwys astudiaeth achos ar Gartref Gofal Woffington House yn Nhredeggar. Yn ystod yr astudiaeth hon, caniataodd y defnydd o iPads, ynghyd â sbectols realiti rhithwir, i breswylwyr ymweld ag Aberystwyth ym 1965, a chael profiad o reidiau 'rollercoaster'. Cafwyd gostyngiad o 100% i'r defnydd o feddyginaethau gwrthseicotig ar sail "yn ôl y gofyn" yn y cartref, yn ogystal â gostyngiad i nifer y cwmpau a gostyngiad o 28% i alwadau am ambiwlansys.<sup>6</sup> Rhoddwyd hwb i ysbryd y staff hefyd. Fe wnaeth y profiad o ddefnyddio technoleg ddigidol i archwilio hobiau preswylwyr a chysylltu ag aelodau teulu sy'n byw ymhell i ffwrdd wella ansawdd bywyd i'r preswylwyr. Fel yr adroddwyd:

<sup>6</sup> Llywodraeth Cymru, Cymunedau Digidol Cymru, *Cartref Gofal Woffington House*, <https://www.digitalcommunities.gov.wales/cy/case-studies/cartref-gofal-woffington-house/>. Gwelwyd ar 28 Mawrth 2021.

## Adran 3 Yr angen am fwy o nyrsys cofrestredig yn y sector cartrefi gofal

*“Mae Ken (nid ei enw go iawn) wedi byw yn Woffington House ers dros ddwy flynedd. Nid oes ganddo deulu ac nid oes unrhyw un yn ymweld ag ef. Mae'n dioddef o bryder, iselder ysgafn a dementia. Weithiau, byddai'n cnoi cymalau ei fysedd ac yn bwrw fframiau drysau am ei fod yn teimlo'n rhwystredig. Rhoddwyd Lorazepam iddo pan oedd ei angen. Gan ddefnyddio iPad a sbectol Realiti Rhithwir, mae Ken wedi cael cyfle i ailym weld ag Aberystwyth yn 1965 ac i fynd ar ‘rollercoaster’. Mae wrth ei fodd hefyd yn chwilio am ganeuon gan ddefnyddio YouTube. Mae iechyd a llesiant Ken wedi gwella'n sylweddol ac nid yw bellach yn defnyddio meddyginaethau gwrthseicotig”.<sup>7</sup>*

Mae integreiddio TG mwn cartrefi gofal nid yn unig yn bwysig ar gyfer darparu gofal, a mynediad at ganllawiau a phrotocolau cyfredol, mae'n hanfodol ar gyfer iechyd a llesiant gwell preswylwyr. Gallai buddsoddi mewn TGCh a thechnoleg ddigidol gynyddu capaciti a galluoedd cartrefi gofal yn fawr.

### Fframwaith addysg a gyrfaoedd

*Mae'r gofal a ddarperir y tu allan i ysbytai yn gynyddol gymhleth ac yn gofyn am gymysgedd sgiliau sylweddol ac amrywiol, nid yn unig i ofalu am breswylwyr cartrefi gofal ond hefyd i reoli systemau, adnoddau a phobl yn effeithiol.*

Nid yw'r rhaglennu nyrso israddeleg, cyn-cofrestru bob amser yn paratoi gweithlu nyrso'r dyfodol yn adidas gyda'r wybodaeth, y ddealltwriaeth, a'r sgiliau clinigol ac ymarferol angenrheidiol ar gyfer swydd yn y sector cartrefi gofal. Ac nid yw'r rhaglenni yn amlygu chwaith y posiblwydd o gamu ymlaen yn eich gyrfa, cyfleoedd arweinyddiaeth a lefel sgiliau y byddai nyrs yn y lleoliad gofal yn ei chyrraedd.

Mae RCN Cymru yn teimlo bod angen sylw addysgol ychwanegol i ofal ar gyfer pobl hŷn; eiddilwch; cydafiacheddau; cyflyrau hirdymor cymhleth; dementia; gofal diwedd oes; partneriaethau iechyd a gofal cymdeithasol; a pholisi a rheoleiddio cartrefi gofal.

<sup>7</sup> Canolfan Cydweithredol Cymru, Tachwedd 2018, *Cynhwysiant Digidol ac Iechyd yng Nghymru* <https://cymru.coop/wp-content/uploads/2019/02/Digital-Inclusion-and-Health-in-Wales-0119-Cymraeg-full-report.pdf>. Gwelwyd ar 27 Mawrth 2021.

## Adran 3 Yr angen am fwy o nyrssys cofrestredig yn y sector cartrefi gofal

Mae'r Cyngor Nyrssio a Bydwreigiaeth wedi cyhoeddi safonau cyn-cofrestru newydd ac, ynghyd ag adolygiad cyfredol AaGIC o gomisiynu addysg, ceir cyfle gwirioneddol yng Nghymru i roi sylw i'r agweddau hyn a'u cryfhau.


I annog nyrssys cofrestredig ddechrau eu gyrrfa ym maes nyrssio cartrefi gofal, mae angen fframwaith gyrfaoedd sy'n amlinellu llwybr eglur ar gyfer nyrssio yn y sector cartrefi gofal ac annibynnol.

Arweiniodd Prif Swyddog Nyrssio Cymru ddatblygiad y fframwaith gyrfaoedd cyn-cofrestru ar gyfer nyrssio, y fframwaith ymarfer uwch ac alinio sgiliau nyrssio. Mae angen addasu a mabwysiadu'r canllawiau hyn yn y sector cartrefi gofal. Bydd hyn yn gofyn am gydweithrediad gyda sefydliadau academaidd sy'n darparu addysg nyrssio cyn ac ar ôl cofrestru, i alluogi dysgu, addysgu a mentora; dylai fod cyfleoedd dysgu a hyfforddi wedi'u hariannu yn yr amgylchedd gwaith a'r tu allan iddo.

### Rhyddhau o'r ysbyty

Mae ystadegau perfformiad y GIG yng Nghymru yn dangos bod cyfartaledd o 452 o gleifion wedi aros mewn gwelyau GIG aciwt yn 2019 er gwaethaf y ffaith eu bod yn feddygol iach i gael eu rhyddhau. Roedd cyfartaledd o 194 o'r 452 o gleifion hynny yn aros am ofal cymunedol ac roedd 69% o'r cleifion yn 75 mlwydd oed neu'n hŷn.

Nid yw'r amgylchedd ysbyty aciwt o fudd i bobl aros ynddo yn hwy nag sy'n glinigol angenrheidiol. Ceir perygl uwch o haint a chynnydd i ddibyniaeth feddygol. Mae galluoedd corfforol yn dirywio yn gyflym sy'n arwain at debygolrwydd uwch o gwmpau ac anafiadau pellach. Mae'r ymgyrch Codwch, Gwisgwch, Symudwch yn cydnabod bod cleifion dros 80 mlwydd oed sy'n aros yn y gwely yn colli hyd at 10% o fâs y cyhyrau mewn 10 diwrnod yn unig. Mae hyn yn cyfateb i'w cyhyrau yn heneiddio tua 10 mlynedd. Nododd yr ymgyrch y gall hyd at 50% o gleifion dros 80 oed ddechrau dioddef anymataliaeth o fewn 24 awr o gael eu derbyn a bod llai na 50% o gleifion yn gwella i lefelau cyn-derbyn o fewn blwyddyn.



## Adran 3 Yr angen am fwy o nyrsys cofrestredig yn y sector cartrefi gofal

Y ffactor mwyaf arwyddocaol sy'n achosi oediadau cyn rhyddhau yw'r diffyg capaciti yn y sector cymunedol a gofal i dderbyn cleifion sy'n oedolion ac yn blant. Ceir diffyg cyfathrebu hefyd rhwng y lleoliad eilaidd a chartrefi gofal. Mae rhyddhau claf i gartref gofal yn broses hynod gymhleth. Mae'n rhaid i'r cartref gofal asesu anghenion yr unigolyn, sicrhau y gall y cartref ddiwallu anghenion yr unigolyn trwy adnoddau ffisegol a staffio, a thrafod trefniadau gydag aelodau teulu a gweithwyr iechyd proffesiynol. Hefyd, mae angen i'r rhyddhau ddigwydd ar ddiwrnod priodol ac os bydd angen cludo unigolyn i'r cartref mewn ambiwlans mae angen trefnu hynny hefyd. Yn aml, mae rhyddhau claf yn cynnwys proffesiynau lluosog. Felly, mae angen i gyfathrebu fod yn gyson ac yn rhwydd trwy ofal eilaidd, sylfaenol a chymdeithasol i gyd.

Cyflwynwyd mentrau i wella cyfathrebu a rhyddhau o'r ysbyty ledled Cymru. Ym Mae Abertawe, cyflwynwyd y cynllun "bagiau coch"; mae'n helpu preswylwyr cartrefi gofal a dderbynir i'r ysbyty gael eu rhyddhau yn gynt. Mae'r bag yn cynnwys gwaith papur allweddol, meddyginaeth, ac eitemau personol. Fe'i rhoddir i griwiau ambiwlans gan staff y cartref gofal pan fydd angen i glaf gael ei dderbyn i'r ysbyty. Mae'r bag yn teithio gyda'r claf o'r cartref gofal i'r ysbyty ac yn ôl i'r cartref gofal.

Lansiwyd y cynllun bag coch mewn ardaloedd penodol yn Lloegr yn 2018. Fodd bynnag, dim ond yn ddiweddar iawn y cyflwynwyd y cynllun ym Mae Abertawe, ac fe wnaeth pandemig COVID-19 darfu ar unrhyw gynnydd y gellid fod wedi ei wneud.

Mae'n hanfodol bod unrhyw gynllun i wella'r broses rhyddhau o'r ysbyty yn canolbwytio ar y claf ac yn cynnwys lleisiau o ofal eilaidd, sylfaenol, cymunedol a chymdeithasol.

## Adran 4

Gofal diogel ac effeithiol mewn  
cartrefi gofal

Mae staffio diogel yn achub bywydau.

*Mae lefelau staff nyrssio gwael yn cynyddu cyfraddau marwolaeth hyd at 26% o'u cymharu â wardiau sydd wedi'u staffio yn well. Mae gwaith ymchwil hefyd wedi profi bod lefelau staff nyrssio diogel ac effeithiol yn lleihau ail-dderbyniad i'r ysbyty, cyfraddau heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd, gwallau meddyginaeth, cwmpau a briwiau pwys.*

Mae RCN Cymru o'r farn y dylai'r Llywodraeth Cymru nesaf ymrwymo i ddarparu staffio diogel mewn cartref gofal. Dylai Llywodraeth Cymru ehangu cwmpas Deddf Lefelau Staff Nyrssio (Cymru) 2016 a buddsoddi yn Rhaglen Staff Nyrssio Cymru Gyfan.

Yn rhan o'r agenda barhaus ar gyfer sicrhau staffio diogel yn y sector cartrefi gofal, dylai GCC weithio mewn partneriaeth â'r Prif Swyddog Nyrssio i lunio egwyddorion staffio diogel ar gyfer cartrefi gofal.

### Egwyddorion staffio diogel

Yn 2017, cyhoeddodd swyddfa'r Prif Swyddog Nyrssio yr 'Egwyddorion Staffio Arweiniol Nyrssys Ardal Dros Dro'.<sup>8</sup> Nod yr wyth egwyddor staffio oedd grymuso timau nyrssio ardal a chymunedol a chydnabod cymhlethdod y gofal sy'n ofynnol yn y gymuned.

Cyflwynwyd yr egwyddorion fel dull i gynorthwyo ehangiad Deddf Lefelau Staff Nyrssio (Cymru) 2016. Ar yr un pryd, cydnabuwyd gan swyddfa'r Prif Swyddog Nyrssio na ellid ehangu cwmpas Deddf Lefelau Staff Nyrssio (Cymru) 2016 i'r gymuned gan nad oedd "adnodd cyfrifo gweithlu digon cadarn a seiliedig ar dystiolaeth a dangosyddion priodol sy'n ystyriol o gleifion".<sup>9</sup> Cyflwynwyd yr egwyddorion fel mesur dros dro felly i gynorthwyo byrddau iechyd yn barod ar gyfer unrhyw ehangiad posibl i Ddeddf Lefelau Staff Nyrssio (Cymru) 2016 i'r gymuned. Mae'r uchelgais i ehangu Deddf Lefelau Staff Nyrssio (Cymru) 2016 i'r gymuned yn parhau.

<sup>8</sup> Llywodraeth Cymru, 2019, *Egwyddorion Staffio Arweiniol Nyrssys Ardal Dros Dro*, <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/egwyddorion-staffio-arweiniol-nyrssys-ardal-dros-dro.pdf>. Gwelwyd ar 23 Mawrth 2021.

<sup>9</sup> Llywodraeth Cymru, 2019, *Egwyddorion Staffio Arweiniol Nyrssys Ardal Dros Dro*, <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/egwyddorion-staffio-arweiniol-nyrssys-ardal-dros-dro.pdf>. Gwelwyd ar 23 Mawrth 2021.

## Adran 4 Gofal diogel ac effeithiol mewn cartrefi gofal


---

Nid yw cartrefi gofal mewn sefyllfa eto i gael eu cynnwys o dan Ddeddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016. Mae'r rhesymau pam yn debyg i'r rhai a fynegwyd yn 2017 gan y Prif Swyddog Nyrsio yngylch nyrsio cymunedol: "Yn gyntaf, pa mor barod yw adnodd cynllunio'r gweithlu seiliedig ar dystiolaeth yng nghyd-destun Cymru, ac yn ail dichonoldeb (o ran cost a pha mor barod yw'r gweithlu) cynnal y lefel staffio ofynnol o nyrsys"<sup>10</sup>. Hefyd, mae'r sector cartrefi gofal yn eithriadol o gymhleth, â chyrff comisiynu, ffrydiau ariannu a rheoliadau amrywiol. Byddai angen deall hyn er mwyn ymestyn Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016.

Dylai GCC a swyddfa'r Prif Swyddog Nyrsio weithio mewn partneriaeth i lunio egwyddorion staffio ar gyfer y sector cartrefi gofal. Yn debyg i'r egwyddorion cymunedol dros dro, byddai unrhyw egwyddorion cartrefi gofal yn gweithredu fel mesur i baratoi'r sector ar gyfer cyflwyno Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016. Dylai'r gwaith o ddylunio a gweithredu'r egwyddorion gael ei wneud gan GCC a'r Prif Swyddog Nyrsio, mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid. Byddai hyn yn sicrhau bod yr egwyddorion yn addas ac yn gynaliadwy a bod modd eu defnyddio yn y sector.

### Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016

Deddfwyd Deddf Lefelau Staff Nyrsio (Cymru) 2016 i ddiogelu cleifion a grymuso'r gweithlu. Nid yw'r ddeddfwriaeth yn cynnwys cartrefi gofal ar hyn o bryd. Ar hyn o bryd, mae Adran 25A yn ei gwneud yn ddyletswydd ar fyrrdau ac ymddiriedolaethau iechyd roi sylw i bwysigrwydd lefelau staff nyrsio ym mhob lleoliad. Mae Adran 25B yn ei gwneud yn ddyletswydd gyfreithiol ar fyrrdau ac ymddiriedolaethau iechyd i gyfrifo a chynnal lefelau staff nyrsio yn unol â dull penodedig. Mae Adran 25B yn cynnwys wardiau cleifion mewnol meddygol a llawfeddygol aciwt ar hyn o bryd a bydd yn cynnwys wardiau cleifion mewnol pediatrig erbyn mis Hydref 2021.



*Yn 2020, arolygodd RCN Cymru ei aelodau ar ba lleoliad yr oeddent yn credu oedd y pwysicaf i Adran 25B gael ei hymestyn iddo. Dywedodd dros draean (36.7%) yr ymatebwyr mai cartrefi gofal yw'r lleoliad pwysicaf. Derbyniodd cartrefi gofal y ganran uchaf o bleidleisiau.*

<sup>10</sup> Llywodraeth Cymru, 2019, *Egwyddorion Staffio Arweiniol Nyrsys Ardal Dros Dro*, <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2019-03/egwyddorion-staffio-arweiniol-nyrsys-ardal-dros-dro.pdf>. Gwelwyd ar 23 Mawrth 2021.

## Adran 4 Gofal diogel ac effeithiol mewn cartrefi gofal

Pan na allwch chi  
recriwtio a chadw  
staff, dim ond y  
pethau sylfaenol y  
gallwch eu gwneud.  
Mae'n golygu na  
allaf caniatáu i'm  
staff fynd â chwe  
phreswylydd ar drip  
i Gaerdydd,  
oherwydd mewn  
argyfwng, mae  
angen dau berson  
arnyn nhw ar gyfer  
y preswylydd  
hwnnw ac un gyda  
phob preswylydd  
arall. Felly dyna  
chwe aelod o staff a  
nyrs i ofalu am  
traceostomi, cario  
peiriannau sugnedd  
neu ocsigen ar eu  
cefnau,  
meddyginaeth  
Parkinson's... Ond  
rydych chi'n  
caniatáu i'r person  
hwnnw gael bywyd.  
Mae'n rhaid i ni  
wneud hynny fel  
nyrswys mewn gofal.

Dylid hefyd nodi, ar adeg datblygu'r ddeddfwriaeth wreiddiol, bod nifer o bleidiau gwleidyddol wedi cyflwyno a chefnogi gwelliannau a oedd o blaid cynnwys cartrefi gofal yn rhan o gwmpas y ddeddfwriaeth.

Dylai Llywodraeth Cymru ymestyn cwmpas Deddf Lefelau Staff Nyrssio (Cymru) 2016 i gartrefi gofal ac, fel cam cychwynnol, dylai Llywodraeth Cymru fuddsoddi mewn ffrwd waith cartrefi gofal yn rhan o Raglen Staff Nyrssio Cymru Gyfan.

### Raglen Staff Nyrssio Cymru Gyfan

Mae rhaglen Staff Nyrssio Cymru Gyfan, y mae AaGIC yn gyfrifol amdani, yn goruchwyliau datblygiad adnodd lefelau gofal Cymru i'w ddefnyddio mewn gwahanol lleoliadau. Mae'r adnodd lefelau gofal yn darparu'r dull seiliedig ar dystiolaeth penodol sydd ei angen i gyfrifo a chynnal lefel y nyrssio sy'n ofynnol ar gyfer lleoliad penodol. Mae hyn yn cynnwys asesiad parhaus o aciwtedd a dibyniaeth cleifion i alluogi angen staffio i gael ei gyfrifo yn gyson. Mae'r adnodd yn caniatáu ar gyfer ymestyn Adran 25B i lleoliadau eraill.

Byddai ffrwd waith benodedig yn gofyn am gynrychiolwyr o GCC, rheolwyr cartrefi gofal, awdurdodau lleol ac, wrth gwrs, cynrychiolwyr nyrssio. Byddai hyn yn caniatáu i bob llais gael ei glywed yn natblygiad staffio diogel yn y sector cartrefi gofal. Dylai fod mwy o fuddsoddiad a chymorth ar gyfer Rhaglen Staff Nyrssio Cymru Gyfan i alluogi'r rhaglen i ehangu i lleoliadau eraill, gan gynnwys cartrefi gofal.



## Integreiddio a gweithio gyda gofal eilaidd, sylfaenol a chymunedol

Yn *Cymru Iachach* (2018), amlinellodd Llywodraeth Cymru ei gweledigaeth hirdymor o symud y ddarpariaeth o ofal iechyd o ysbtyai dwys o ran adnoddau i wasanaethau cymunedol a gwella integreiddiad iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru. Mae'r ymgyrch bolisi strategol, ynghyd â'r boblogaeth sy'n heneiddio a chydfafiachedd cynyddol, wedi rhoi gwasanaethau nysrio cymunedol a chartrefi gofal o dan bwysau trwm a tra bod y weledigaeth yno, y safbwyt o'r rheng flaen yw bod diffyg cysylltiad o hyd rhwng gofal sylfaenol, cymunedol, eilaidd a chymdeithasol.

Y ffordd o gyrraedd o nod o ddarparu'r gofal gorau posibl i bobl sy'n byw mewn cartrefi gofal yw cael tîm amlddisgyblaeth sy'n cynnwys gweithwyr iechyd a gofal cymdeithasol proffesiynol yn gweithio yn ddi-dor gyda'i gilydd. Mae'n rhaid i fodel da o integreiddio rhwng iechyd a gofal cymdeithasol gydnabod a gwerthfawrogi'r gwahanol arbenigeddau a sgiliau y gall gwahanol broffesiynau eu cynnig. Hefyd, o gofio'r gofyniad i nysrys sydd wedi'u cofrestru gyda'r Cyngor Nysrio a Bydwreigiaeth sy'n rheolwyr cartrefi gofal fod wedi'u cofrestru gyda GCC hefyd, mae'n bwysig bod y system gofrestru yn gwerthfawrogi cymwysterau nysrio, ac i'r profiad a'r wybodaeth gael eu cydnabod yn rhan o'r system cofrestriad deuol.

Mae nysrys cofrestredig a gyflogir gan gartrefi gofal yn gweithio'n agos gydag asiantaethau a gweithwyr proffesiynol eraill, gan wneud atgyfeiriadau priodol yn rhan o'u swyddogaeth rheoli a chydgylltu gofal. Mae rhai nysrys cofrestredig sy'n gweithio mewn cartrefi gofal yn teimlo bod angen partneriaeth fwy cydgysylltiedig gyda thimau nysrio cymunedol a meddygfeydd teulu, gyda chlystyrau gofal sylfaenol yn arwain i wneud i hyn ddigwydd.

Wrth gwrs, ceir dealltwriaeth nad yw gofal sylfaenol, ynddo'i hun, yn ddiogel rhag pwysau reciwtio a chadw, yn enwedig mewn ardaloedd gwledig. Ac eto, pe bai cydweithredu agosach rhwng meddygon teulu, nysrys ardal a nysrys cofrestredig mewn cartrefi nysrio, gellid cadw mwy o breswylwyr cartrefi gofal yn iach yn y gymuned am gyfnod hwy, gan leihau'r pwysau ar y sector aciwt trwy osgoi derbyniadau diangen i'r ysbty.

*Mae'n rhaid i chi  
gael sgiliau  
cyfathrebu  
gwych, ond  
weithiau mae'n  
anodd iawn. Cyn  
y pandemig, pe  
byddem yn  
ffonio'r ysbty i  
wneud asesiad  
gartref, byddwn  
wedi cael fy herio.  
"Mae'r  
wybodaeth yma'n  
gyfrinachol - sut  
ydw i'n gwybod  
mai chi ydych  
chi?" Nawr rwy'n  
deall hynny, ond  
mae'n rhaid i ni  
ddod dros hynny  
rywsut a  
chydweithio, y  
sector annibynnol  
a'r GIG, mewn  
ffordd mwy  
cydlynus.*

## Adran 6

Y DU yn gadael yr Undeb  
Ewropeaidd

*Canfu gwaith ymchwil a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru mai nyrssys cofrestredig yw'r gr p staff ym maes gofal cymdeithasol â'r gyfran uchaf o weithwyr UE nad ydynt o'r DU (tua 17.7%).<sup>11</sup>*

Amlygodd yr adroddiad hefyd bod heriau recriwtio yn fwyaf difrifol o ran nyrssys sydd wedi'u cofrestru â'r Cyngor Nyrssio a Bydwreigiaeth ym maes gofal cymdeithasol yng Nghymru.<sup>12</sup>

Ym mis Mawrth 2020, llofnododd RCN Cymru bapur safbwyt Llywodraeth Cymru ar fudo.<sup>13</sup> Mae'r papur yn nodi safbwyt unedig Cymru ar nifer o faterion mudo allweddol, gan gynnwys yr angen i gydnabod gwahaniaethau demograffeg ar draws y DU, gofynion Cymru ar gyfer system fewnfudo newydd a'r trothwy cyflog.

### System fewnfudo newydd

Daeth y system fewnfudo newydd yn weithredol ym mis Ionawr 2021. Mae'r RCN yn parhau i alw i'r system hon gael ei dylunio a'i gweithredu i fod o fudd i nyrssio. Mae'n rhaid peidio â defnyddio cyflwyniad y system fewnfudo newydd i greu rhwystrau mympwyol sy'n effeithio ar ein gallu i recriwtio staff nyrssio rhyngwladol. Felly rydym yn galw ar Lywodraeth y DU i sicrhau bod y system newydd:

- o fudd i recriwtio a chadw staff nyrssio rhyngwladol
- yn asesu ac yn lliniaru yn briodol yr effaith ar ofal cymdeithasol
- yn rhoi caniatâd amhenodol i aros i staff iechyd a gofal cymdeithasol sy'n cynorthwyo'r ymateb i COVID-19 ledled y DU
- yn cydnabod bod anghenion y sector iechyd a gofal cymdeithasol yn wahanol ar draws gwledydd a rhanbarthau'r DU

<sup>11</sup> Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth a Llywodraeth Cymru, 2019, *Ymchwil ar Oblygiadau Brexit ar y Gweithlu Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant yng Nghymru* <https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-03/effaith-brexit-ar-y-gweithlu-gofal-cymdeithasol-gofal-plant.pdf>. Gwelwyd ar 20 Mawrth 2021.

<sup>12</sup> Ymchwil Gymdeithasol y Llywodraeth a Llywodraeth Cymru, 2019, *Ymchwil ar Oblygiadau Brexit ar y Gweithlu Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant yng Nghymru* <https://llyw.cymru/sites/default/files/statistics-and-research/2019-03/effaith-brexit-ar-y-gweithlu-gofal-cymdeithasol-gofal-plant.pdf>. Gwelwyd ar 20 Mawrth 2021.

<sup>13</sup> Llywodraeth Cymru, 2020, *Papur Safbwyt Cymru ar Fudo*, <https://llyw.cymru/sites/default/files/publications/2020-03/papur-safbwyt-cymru-ar-fudo.pdf>. Gwelwyd ar 21 Mawrth 2021.

## Adran 6 Y DU yn gadael yr Undeb Ewropeaidd

Mae anghenion y sector iechyd a gofal cymdeithasol yn wahanol ar draws pedair gwlad y DU. Mae'n rhaid i system fewnfudo'r dyfodol gymryd i ystyriaeth y gwahaniaeth o ran galw yn yr Alban, Gogledd Iwerddon, Cymru a Lloegr. Mae'r RCN wedi galw am fecanwaith ffurfiol i Gymru yn debyg i Restr o Alwedigaethau lle ceir Prinder bresennol yr Alban. Gwnaed yr argymhelliaid hwn gan y Pwyllgor Cyngori ar Ymfudo i'r Swyddfa Gartref ac fe'i derbynwyd mewn egwyddor, ond mae angen mechanweithiau eraill i sicrhau bod yn rhaid i anghenion y sector iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru gael eu cymryd i ystyriaeth.

### Y cynllun preswylio'n sefydlog

Mae RCN Cymru yn gwerthfawrogi holl wladolion yr UE/Ardal Economaidd Ewropeaidd (AEE) a'r Swistir sy'n gweithio yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol yng Nghymru ac rydym yn cydnabod nad yw hyn yn ymwneud â'r gweithwyr proffesiynol yn unig, ond hefyd eu teuluoedd a'r cymunedau y maent yn byw ynnyddnt. Dylai staff UE/AEE ac o'r Swistir allu gwneud cais i'r cynllun Statws Preswylydd Sefydlog a dylai Llywodraeth Cymru eu cefnogi.

O fis Ionawr 2021, mae'n rhaid bod dinasyddion UE/AEE a'r Swistir sy'n byw yn y DU fod wedi cofrestru a sicrhau statws preswylydd sefydlog neu gyn-sefydlog er mwyn gallu parhau i fyw yn y DU a chael mynediad at wasanaethau'r GIG am ddim. Mehefin 2021 yw'r dyddiad terfyn ar gyfer ymgeisio.<sup>14</sup> Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau bod ei phecyn o gymorth am ddim ar gael yn rhwydd i helpu dinasyddion yr UE weithio a byw yng Nghymru.

<sup>14</sup> Llywodraeth y DU, *Apply to the EU Settlement Scheme (settled and pre-settled status)*, <https://www.gov.uk/settled-status-eu-citizens-families>. Gwelwyd ar 29 Mawrth 2021.

## Section 7 Ariannu gofal cymdeithasol

Mae'r system bresennol o ariannu gofal cymdeithasol yn gymhleth ac yn ddryslyd i breswylwyr cartrefi gofal, teuluoedd a staff gofal cymdeithasol. Mae'n cynnwys hunan-ariannu, cyllid awdurdod lleol a chyfraniad gan y GIG ar gyfer yr elfennau gofal gan nyrssys cofrestredig (trwy ofal nyrssio a ariennir gan y GIG neu Ofal Iechyd Parhaus a ariennir gan y GIG). Mae cartrefi gofal yn cynorthwyo preswylwyr sydd â chyllid o unrhyw un o'r ffrydiau ariannu hyn. Mae'r system bresennol yn achosi llawer iawn o rwystredigaeth, wrth i unigolion deimlo bod system "wahaniaethol" ar waith; meddylfryd "nhw" a "ni", yn gwahanu iechyd o ofal cymdeithasol.

Hefyd, Mae cyllid Gofal Iechyd Parhaus a ariennir gan y GIG yn gyfyngedig ac nid yw'n adlewyrchu cost wirioneddol gofal, sy'n golygu bod llawer o gartrefi yn amharod bellach i gynnig Gofal Iechyd Parhaus a ariennir gan y GIG. Pan fydd eu hanghenion yn cynyddu fel eu bod yn gymwys ar gyfer Gofal Iechyd Parhaus a ariennir gan y GIG, gofynnir i rai preswylwyr symud cartrefi gan na all y cartref gofal fforddio parhau gyda chyllid Gofal Iechyd Parhaus a ariennir gan y GIG. Caiff y system dwy haen dybiedig hon hefyd ei hadlewyrchu yn y mynediad at offer sydd gan y sector gofal cymdeithasol, o'i gymharu â'r GIG, sy'n cyfyngu ar gwmpas y gofal a roddir mewn cartrefi gofal.

Mae angen gwahaniaethu yn bendant rhwng gofal nyrssio a gofal personol yn y system bresennol o gael gafael ar gyllid cyhoeddus ar gyfer gofal, gyda gofal nyrssio yn cael ei ariannu gan y GIG a gofal personol neu gymdeithasol naill ai ddim yn cael ei ariannu neu'n amodol ar feini prawf cymhwysedd amrywiol. Mae hwn yn ymarfer anodd a rhwystredig o safbwyt nyrssio, sy'n ystyried anghenion y sawl sy'n derbyn gofal yn gyfannol. Mae'r hanfodion gofal, fel maetheg, hydradu a hylendid personol, yn ogystal ag iechyd corfforol a meddyliol yn fwy cyffredinol, i gyd yn agweddu ar iechyd a llesiant. Mae'n dilyn, felly, bod y sefyllfa bresennol lle gall un person dderbyn gofal canser cyflawn drwy'r GIG, tra bod yn rhaid i un arall werthu ei gartref er mwyn talu am ofal dementia yn ymddangos yn sylfaenol annheg o safbwyt nyrssio.

Mae'r gwahaniaeth rhwng gofal nyrssio a gofal personol hefyd wedi arwain at oblygiadau yn y gorffennol i nyrssys sy'n gweithio mewn cartrefi gofal cofrestriad deuol. Yn y lleoliadau hyn, byddai nyrssys wedi'u cyfyngu i ddarparu gwasanaethau clinigol i breswylwyr ag angen nyrssio a aseswyd, tra byddai timau nyrssys ardal yn darparu gwasanaethau clinigol neu "nyrssio" (fel newid gorchuddion) i breswylwyr yr aseswyd bod ganddynt anghenion

## Adran 7 Ariannu gofal cymdeithasol

gofal personol “yn unig”. Mae'r rheoliadau a gyflwynwyd o dan Ddeddf Rheoleiddio ac Arolygu Gofal Cymdeithasol (Cymru) 2016 yn nodi y gall nyrssys cofrestredig ddarparu gofal i bob preswylydd, ond byddai angen nodi hyn yn benodol yn Natganiad o Ddiben cartref gofal.

Cynghorir darparwyr gwasanaeth cartref gofal i ystyried y goblygiadau ehangach i'r holl bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Er enghraifft, pe bai nifer fawr o breswylwyr angen gofal clwyfau, a fyddai'n cael ei ddarparu fel rheol gan nyrssys ardal, gallai hyn leihau gallu nyrssys cofrestredig i ofalu am unigolion ag anghenion “nyrsio” (fel y'u diffinnir gan y system ariannu). Pe bai hyn yn cael effaith ar y bobl sydd angen gofal nyrsio, mae'r rheoliadau yn eglur y byddai angen addasu'r lefel staffio i gymryd hyn i ystyriaeth. Gall y system hon, a'i dehongliad gan y cyflogwr, achosi rhwystredigaeth i'r nyrs neu'r gweithiwr gofal yn y cartref y byddai'n well ganddo ganolbwytio ar ddarparu gofal fel sydd ei angen i bawb.

Mae'n eglur bod angen llunio system ariannu hirdymor, gynaliadwy ac wedi'i symleiddio ar gyfer gofal cymdeithasol. O ystyried maint ac arwyddocâd gwasanaethau a ddarperir gan gartrefi gofal a'r sector anstatudol, mae'n hanfodol bod gan y sectorau hyn sefydlogrwydd ariannol. Mae'r system ariannu bresennol ar gyfer cartrefi gofal yn arbennig o anodd, gyda chyllid GIG yn dilyn cleifion unigol. Byddai fframwaith GIG Cymru Gyfan ar gyfer comisiynu lleoedd mewn cartrefi gofal yn llawer mwy synhwyrol a dylid ei ystyried.

## Adran 7 Ariannu gofal cymdeithasol

### Ailgydbwys o gofal a chymorth

Mae Llywodraeth Cymru wedi lansio ymgynghoriad ar bapur gwyn o'r enw 'Ailgydbwys o gofal a chymorth'. Mae'r papur gwyn yn nodi sut i sicrhau y gall gweledigaeth Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 gael ei gwireddu yn llawn.

Mae 'Ailgydbwys o gofal a chymorth' yn cofio bod Llywodraeth Cymru wedi profi anawsterau sylweddol yn ystod gweithrediad Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 o ran trefnu a darparu gofal. Mae'r ymgynghoriad ar y papur gwyn yn tynnu sylw at y diffyg cydgysylltiad rhwng awdurdodau lleol fel y prif reswm am hyn. Mae'n nodi bod 22 o wahanol ffyrdd posibl o drefnu a darparu gofal yng Nghymru: system a ysgogir gan gymhlethdod a dryswch.

Mae 'Ailgydbwys o gofal a chymorth' yn awgrymu sefydlu fframwaith cenedlaethol ar gyfer gofal cymdeithasol. Diben y fframwaith fyddai pennu dulliau ffioedd a gwella cydweithrediad a thryloywder. Byddai'r system yn ymylu gwahaniaethau tâl ymhellach mewn ymdrech i leihau cystadleuaeth rhwng darparwyr.

Mae'r ymgynghoriad yn pwysleisio ymhellach y ffaith bod y Gr p Rhyngweinidogol ar Dalu am Ofal Cymdeithasol wrthi'n archwilio opsiynau i adnoddau gael eu gwneud ar gael ar gyfer y dyfodol i'r sector gofal cymdeithasol i oedolion, gan gynnwys sut y byddai cyllid ychwanegol yn cael ei godi a'i wario.

Bydd RCN Cymru yn ymateb i'r ymgynghoriad i bwysleisio pwysigrwydd a gwerth nyrssio yn y sector cartrefi gofal ac i sicrhau bod unrhyw drefniadau a roddir ar waith yn addas i'r proffesiwn nyrssio a'r unigolion sy'n defnyddio gofal cymdeithasol.



